## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (Y DRENEWYDD I'R TRALLWNG, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2025

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, rhwng y Drenewydd a'r Trallwng, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys, ar gyfer y gwaith neu gerbydau gwasanaeth cynnal a chadw y gaeaf) pob beiciwr a phob cerddwr rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o ochr ddwyreiniol Cylchfan Robert Owen, y Drenewydd hyd at ochr dde-orllewinol Cylchfan Sarn-y-bryn-caled, y Trallwng.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd fydd ar hyd yr A483 Ffordd Osgoi'r Drenewydd tua'r de hyd at Gylchfan Pryce-Jones, yr A489 tua'r gogledd-ddwyrain i'r Ystog a'r A490 tua'r gogledd-orllewin i ailymuno â'r A483 wrth Gylchfan Sarn-y-bryn-caled, y Trallwng: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 20 Hydref 2025. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol yn bennaf dros nos (19:00 o'r gloch tan 07:00 o'r gloch) o 20 hyd 27 Hydref 2025, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A483 TRUNK ROAD (NEWTOWN TO WELSHPOOL, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS & PEDESTRIANS) ORDER 2025

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A483 trunk road between Newtown and Welshpool, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services, for the works or winter maintenance service vehicles), cyclists and pedestrians from proceeding on the length of the A483 trunk road that extends from the eastern side of Robert Owen Roundabout, Newtown to the south-western side of Sarn-y-bryn Caled Roundabout.

The alternative route for northbound traffic is via the southbound A483 Newtown Bypass to Pryce-Jones Roundabout, north-eastbound A489 to Churchstoke and north-westbound A490 to rejoin the A483 at Sarn-y-bryn Caled Roundabout, Welshpool: vice versa for southbound traffic.

The Order comes into force on 20 October 2025. The temporary prohibition is expected to operate mostly overnight (19:00 – 07:00 hours) from 20 – 27 October 2025, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to be in force during the period specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government